# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 27 IONAWR 2020

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymuned:**- Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Eirian Roberts a Gruff Ellis (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Aled Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2019 fel rhai cywir.

**5. SAFONAU MOESEG MEWN TREFNIADAU ALLANOLI A CHYDWEITHIO**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn rhoi trosolwg o'r ystod o drefniadau llywodraethu gwahanol sy'n rhan o gyd-weithio'r Cyngor ar draws ystod o brosiectau mewn amryw o feysydd, ac yn esbonio sut mae materion priodoldeb yn cael eu cyfarch.

Nododd y Swyddog Monitro, gan fod hanes o gydweithio agos rhwng swyddogion monitro Gogledd Cymru, bod llawer o waith cydgordio yn digwydd y tu ôl i'r llen ac yn ei gwneud yn hawdd cael consensws ar wahanol faterion.

Cyfeiriwyd yn benodol at:-

- Y tabl yn Atodiad 1 i'r adroddiad, oedd yn rhoi trosolwg bras o'r mathau o fodelau o gydweithio ac allanoli oedd yn cael eu defnyddio amlaf.
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer Ymgynghorwyr Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

Holwyd sut roedd hyn i gyd yn cael ei roi o flaen y cynghorwyr fel eu bod yn glir beth oedd y gofynion. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhaid ymdrin â hyn ar sail pob achos yn unigol. E.e. roedd y swyddogion monitro yn cynghori aelodau o ran cydbwyllgorau. Roedd yna brotocol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais oedd yn sôn am y trefniadau, ac yn achos cwmnïau megis Cwmni Byw'n Iach, roedd y bwrdd cyfarwyddwyr wedi derbyn cyfarwyddyd i fynd dros y gofynion gyda'r cynghorwyr.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nodwyd nad oedd problem wedi codi o ran datgan buddiant mewn sefyllfa o gydweithio, boed hynny drwy gamddealltwriaeth neu dramgwydd. Roedd y materion yn eithaf amlwg fel rheol ac roedd modd cael sgwrs aeddfed a chall ble bynnag roedd y sefyllfa'n codi. Roedd hefyd yn bwysig cael y sgwrs honno'n ddigon buan.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

## 6 COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn manylu ar y drefn o ran cofrestru buddiannau aelodau ac yn gwahodd y pwyllgor i gynnig unrhyw sylwadau ar gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â hyn.

Nodwyd bod rhai sefydliadau yn ail-ddosbarthu ffurflenni datgan buddiannau ymlaen llaw yn flynyddol, ac y gellid ystyried hyn yn hytrach nag anfon neges atgoffa yn unig. Awgrymwyd y dylid dweud wrth y cynghorau cymuned bod cofrestru ymlaen llaw yn angenrheidiol, yn hytrach nag yn ymarfer da yn unig. Mewn ymateb, eglurwyd na ellid gorfodi'r cynghorau cymuned i wneud hynny gan nad oedd rheidrwydd ar eu haelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw.

Nodwyd, wrth geisio creu awyrgylch anffurfiol / cartrefol mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned, bod tueddiad i ddweud wrth aelodau sydd â buddiant nad oes raid iddynt adael y stafell yn ystod y drafodaeth ar y mater dan sylw.

Awgrymodd y Swyddog Monitro efallai bod darn o waith i'w wneud o ran sut mae buddiannau yn cael eu cofrestru. Waeth beth oedd yr hinsawdd o ran gorfodi, roedd aelodau'n cydymffurfio oherwydd bod hynny'r peth iawn i'w wneud, ac nid oherwydd bod yna orfodaeth arnynt. Hefyd, roedd yn creu delwedd well os oedd aelod sydd â buddiant yn gadael yr ystafell.

Nodwyd, bod cynghorwyr Gwynedd yn cael eu hannog i fynd i weld y Swyddog Monitro neu'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) ymlaen llaw i wirio os oedd ganddynt fuddiant mewn eitem ar raglen pwyllgor ai peidio.

Nodwyd nad oedd clercod cynghorau cymuned yn datgan buddiannau. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y Cod Ymddygiad yn berthnasol i'r staff, ac fel yr unig swyddog yn gweithio i gyngor cymuned, gallai fod yn anodd i'r clerc gamu o'r neilltu. Er hynny, byddai modd rhoi trefniadau mewn lle i reoli sefyllfa o'r fath gan fod hyn i gyd yn ymwneud â delwedd gyhoeddus. Awgrymwyd y gellid cynnwys hyn yn yr hyfforddiant i'r clercod.

Canmolwyd yr hyfforddiant a drefnwyd yn Nhywyn yn ddiweddar a diolchwyd i'r Swyddog Monitro am ddod yno.

Nodwyd nad oedd y ffurflen yn amlygu'n glir bod buddiannau partneriaid, ac ati, yn berthnasol hefyd.

Gofynnwyd i'r aelodau, fel defnyddwyr, fwrw golwg dros y ffurflen cofrestru ymlaen llaw a'r ffurflen cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd, a chysylltu â'r Swyddog Monitro gydag unrhyw awgrymiadau o ran sut i'w gwella.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Nodwyd bod un cwyn y mae'r Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad iddi ac un lle mae'n ystyried os dylai ymchwilio.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd ei bod yn galonogol gweld cyn lleied o gwynion ond bod gan rai aelodau bryderon ynglŷn â'r amser mae'n cymryd i gael ymateb gan yr Ombwdsmon. Nodwyd bod hwn yn fater sydd wedi ei godi yn y Cyngor llawn hefyd.
- Esboniodd y Swyddog Monitro fod angen i'r gŵyn fod yn un sylweddol i'r Ombwdsmon ymchwilio a gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**